Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r  Pwyllgor Archwilio Cymunedau | Dyddiad: | Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2015 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu **Cyfarfod Arbennig** o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD LLUN, 16 TACHWEDD 2015** am **2.00 pm** yn **YSTAFELL BWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 -GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfaru mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 GALW I MEWN BENDERFYNIAD Y CABINET, DYDDIEDIG 27 HYDREF 2015, YN GYSYLLTIEDIG AG YSGOL LLANFAIR DYFFRYN CLWYD AC YSGOL PENTRECELYN** (Tudalennau 3 - 16)

I ystyried penderfyniad y Cabinet ar 27 Hydref 2015 yn gysylltiedig a bwrw ymlaen i gau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2017, ac i'r Eglwys yng Nghymru agor Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir, dwy ffrwd Categori 2, ar 1 Medi 2017 (adroddiad yn amgaeëdig)

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Rhys Hughes (Is-Gadeirydd)

Brian Blakeley
Bill Cowie
Peter Arnold Evans
Martyn Holland
Win Mullen-James
Bob Murray
Anton Sampson
Cefyn Williams
Cheryl Williams

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitem Agenda 4 yn unig)**

Gill Greenland
Debra Houghton
Dr. D. Marjoram
John Piper
Gareth Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Tachwedd 2015** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd Archwilio** |
| **Teitl:** | **Galw i mewn benderfyniad y Cabinet, dyddiedig 27 Hydref 2015, yn gysylltiedig ac Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

I ystyried penderfyniad y Cabinet ar 27 Hydref 2015 i gymeradwyo gweithrediad y cynnig a'r diwygiad arfaethedig i gau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2017, a bod Esgobaeth Llanelwy yn agor Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir newydd ffrwd ddeuol Categori 2 yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi 2017.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I geisio archwilio i ystyried y cais fod penderfyniad y Cabinet mewn perthynas ag Ysgol Llanfair D C ac Ysgol Pentrecelyn yn cael ei adolygu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor ystyried y rhesymau a roddwyd dros wneud cais am adolygiad o benderfyniad y Cabinet, ac yn dilyn ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd penderfynu pa un ai i:

3.1 beidio a chyfeirio'r penderfyniad yn ôl i Gabinet; neu

3.2 i gyfeirio y penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, a'r sail a'r dystiolaeth dros wneud yr atgyfeiriad.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Penderfyniad Cabinet Sir Ddinbych yn ei gyfarfod ar 27 Hydref 2015 oedd:

"*(a) nodi canfyddiadau'r adroddiad gwrthwynebiad;*

*(b) yn dilyn ystyried yr uchod, mae'r Cabinet yn cymeradwyo gweithrediad y cynnig a'r diwygiad arfaethedig i gau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2017, a bod Esgobaeth Llanelwy yn agor Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir newydd ffrwd ddeuol Categori 2 yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi 2017;*
*(c) bod ceisiadau am gludiant dewisol i'r ysgol categori 1 agosaf, yn cael eu*

*hystyried fesul achos, gan ddisgyblion presennol Ysgol Pentrecelyn a'u brodyr a'u chwiorydd am weddill eu haddysg gynradd yn dilyn cau'r ysgol (ar 1 Medi 2017), a*

*(d) bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i fonitro safonau a chanlyniadau'r Ysgol Ardal newydd a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, Archwilio a chan y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg."*

4.2 Cyhoeddwyd y penderfyniad uchod ar wefan y Cyngor ar 29 Hydref 2015, ac yn unol â Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor (Atodiad 1), ni weithredwyd y penderfyniad ar unwaith fel bod aelodau sydd ddim yn y Cabinet yn gallu galw'r penderfyniad i mewn i'w archwilio, os oeddent o'r farn bod angen archwilio'r penderfyniad ymhellach. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion, cyhoeddodd y Cyngor y penderfyniad i'r holl fudd-ddeiliaid fel y diffinnir yn y Cod. Roedd yr hysbysiad yn nodi'n glir bod *"y penderfyniad hwn yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn a nodwyd yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n caniatáu i adolygu penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet, ond heb gael eu gweithredu eto. Os bydd y penderfyniad yn cael ei alw i mewn, byddai'r holl fudd-ddeiliaid yn cael eu hysbysu."* Er mwyn hwyluso penderfyniad i gael ei alw i mewn rhaid i bum aelod o'r cyngor sydd ddim yn y Cabinet lofnodi ffurflen hysbysiad galw i mewn.

4.3 Derbyniwyd ffurflen 'Hysbysiad Galw i Mewn', wedi'i lofnodi gan y nifer gofynnol o gynghorwyr nad ydynt yn aelodau Cabinet, ar 4 Tachwedd 2015. Arwyddwyd y rhybudd gan y Cynghorwyr Arwel Roberts, Meirick Lloyd Davies, Cefyn H Williams, E Alice Jones a Huw Owen Williams. Dangosir y rhesymau dros alw'r penderfyniad i fewn yn Atodiad 2.

4.4 Mae'r Weithdrefn Galw i Mewn yn nodi y dylid ystyried y 'galw i mewn' o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y rhybudd. Er hynny, mae modd ymestyn y cyfnod hwn gyda chaniatâd y penderfynwr a chadeirydd y pwyllgor archwilio. Yn yr achos hwn cytunodd y penderfynwr a chadeirydd y pwyllgor archwilio i ymestyniad.

4.5 Gan fod penderfyniad y Cabinet ar 27 Hydref 2015 yn ymwneud â darpariaeth addysg y Cyngor, caniateir i'r aelodau cyfetholedig statudol dros addysg ar bwyllgorau archwilio'r Cyngor gyfrannu wrth ystyried y mater hwn fel aelodau o'r Pwyllgor â phleidlais lawn.

4.6 Mae dolen gyswllt at gopïau o'r adroddiad a'r atodiadau gafodd eu hystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod ar 27 Hydref wedi ei anfon at aelodau'r pwyllgor. Gellir eu gweld hefyd ar wefan y Cyngor trwy ddilyn y ddolen isod: https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=281&MId=5146&LLL=1

4.7 Gofynnir i'r Aelodau benderfynu, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynir iddynt, os yw'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cabinet adolygu ei benderfyniad gwreiddiol, ac os felly ar ba sail.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 27 Hydref 2015.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 27 Hydref 2015.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 27 Hydref 2015.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

Gweler yr adran a'r atodiadau perthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 27 Hydref 2015.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 27 Hydref 2015.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gweler yr adran berthnasol yn yr adroddiad i'r Cabinet dyddiedig 27 Hydref 2015

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 21, Deddf Llywodraeth Leol 2000
Erthygl 6.3.2 (ch) o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Archwilio
Ffôn: 01824 712554
E-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 1**

**GWEITHDREFN 'GALW I MEWN' – NODYN CYFARWYDDYD**

## Cyflwyniad

Mae'r Rheolau Gweithdrefn yn caniatáu i 5 aelod Anweithredol (cynghorwyr sydd ddim yn aelodau o'r Cabinet) i gychwyn 'galw i mewn' penderfyniad - fel arfer un a gymerwyd gan y Cabinet neu aelodau unigol o'r Cabinet (a ddisgrifir fel 'y penderfynwr'). Er mwyn hwyluso'r broses hon, cynhyrchwyd ffurflen 'Rhybudd Galw i Mewn Penderfyniad' fydd yn cael ei lofnodi gan y 5 aelod, a chyflwyno i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd. Caniateir pum diwrnod gwaith i benderfyniad gael ei 'alw i mewn yn dilyn cyhoeddiad ar wefan y Cyngor a hysbysiad i Aelodau'r Cyngor. Ni weithredir ar benderfyniad wnaed gan swyddogion hyd nes i'r cyfnod hwn ddod i ben.

Ni all aelodau sydd â diddordeb niweidiol yn y penderfyniad fod yn arwyddwyr Rhybudd 'Galw i Mewn'.

## Cyhoeddi'r Penderfyniadau

Ni fydd y cyfnod 5 diwrnod gwaith yn dechrau hyd nes bod y penderfyniad wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i e-bostio at holl aelodau'r Cyngor. Rhaid cyhoeddi'r penderfyniadau o fewn 2 ddiwrnod gwaith o wneud y penderfyniad, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Gallai hwn fod ar ffurf ddrafft cofnodion y cyfarfod, crynodeb o'r penderfyniadau a wnaed neu gofnod o'r penderfyniad dirprwyedig a wnaed.

## Gweithredu'r Penderfyniadau

Gellir gweithredu'r penderfyniadau o'r chweched diwrnod gwaith yn dilyn y cyhoeddiad, oni bai bod 'Galw i Mewn' dilys wedi ei dderbyn gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

## Penderfyniadau Brys

Gall penderfyniadau brys fynd ymlaen er gwaethaf 'galw i mewn', os oes gan y penderfynwr gytundeb gyda:

(i) Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol, neu

(ii) os nad oes Cadeirydd, neu os na all hwnnw weithredu, Cadeirydd y Cyngor, neu

(iii) os nad oes Cadeirydd o'r Pwyllgor Archwilio perthnasol na Chadeirydd y Cyngor, Is-gadeirydd y Cyngor.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd rhaid gweithredu penderfyniadau brys yn syth ar ôl gwneud penderfyniad, ac felly nid yw 'galw i mewn' yn bosibl.  Rhaid nodi'r rhain gan y Cabinet / penderfynwr ar adeg gwneud y penderfyniad brys, gan egluro a chofnodi'r rhesymau y tu ôl i'r brys yng nghofnod y penderfyniad.

Y Weithdrefn

Rhaid cyflwyno 'Rhybudd Galw Penderfyniad i Mewn' wedi ei gwblhau'n briodol i Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (fydd hefyd yn Swyddog Monitro). Rhaid i'r rhybudd gynnwys llofnod pum aelod Anweithredol sy'n galw'r penderfyniad i mewn', yn ogystal â'r rhesymau dros hynny.

Bydd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn rhoi gwybod i Arweinydd y Cyngor, y penderfynwr dirprwyedig (os yn berthnasol), a'r Prif Weithredwr, ar ôl derbyn 'Rhybudd Galw i Mewn', a chadarnhau gyda nhw na ellir gweithredu'r penderfyniad hyd nes y ceir rhybudd pellach oddi wrth Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

Pa Bwyllgor Archwilio?

Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn penderfynu pa Bwyllgor Archwilio fydd yr un mwyaf addas i ystyried y 'galw i mewn' - os bydd angen, mewn ymgynghoriad â Chadeiryddion Archwilio a Grŵp Is-gadeiryddion. Trefnir cyfarfod arbennig o'r pwyllgor o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn 'Penderfyniad Rhybudd Galw i Mewn', oni bai bod gan y pwyllgor gyfarfod wedi ei drefnu o fewn y cyfnod hwnnw, neu, os cytunir ar estyniad i'r cyfnod rhwng y penderfynwr â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Caiff yr holl aelodau wybod am y 'galw i mewn', a manylion y cyfarfod a gynhelir, i'w ystyried.

Yr Arwyddwyr fydd yn Bresennol

Fel arfer, disgwylir i arwyddwyr y 'galw i mewn' fynychu'r Pwyllgor Archwilio, a chyfiawnhau'r rhesymau dros y 'galw i mewn', i'r Pwyllgor Archwilio.

Beth fydd yn Digwydd os na fydd y Pwyllgor wedi cyfarfod mewn amser?

Os na fydd y Pwyllgor Archwilio wedi cyfarfod o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn 'Rhybudd Galw i Mewn', a bod dim cytundeb ynglŷn ag estyniad i'r amser, bydd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn hysbysu Arweinydd y Cyngor, y Prif Weithredwr, ac (os yn berthnasol), y penderfynwr dirprwyedig, bod y 'galw i mewn' wedi ei ddiddymu.

Dim achos i ateb drosto?

Petai'r Pwyllgor Archwilio, wedi cyfarfod i ystyried y 'galw i mewn', yn penderfynu na ddylai'r penderfyniad gael ei gyfeirio'n ôl at y penderfynwr (e.e. Aelod Cabinet neu Arweiniol) i'w ail-ystyried, bydd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yn rhoi gwybod i Arweinydd y Cyngor, Y Prif Weithredwr, ac (os yn berthnasol), y penderfynwr dirprwyedig, y gallai'r penderfyniad gael ei weithredu.

Argymhellion o'r Pwyllgor Archwilio

Os bydd y Pwyllgor Archwilio'n cytuno bod achos i'r penderfyniad gael ei adolygu, ystyrir argymhellion y Pwyllgor Archwilio gan y Cabinet yn eu cyfarfod nesaf, neu, os bydd penderfyniad dirprwyedig, gan Aelod Arweiniol o fewn 5 diwrnod gwaith.

Beth os fydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei ail-gadarnhau?

Petai'r penderfynwr yn cadarnhau'r penderfyniad, rhaid i'r penderfynwr ddangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth ddyladwy i argymhellion y Pwyllgor Archwilio.

**RHEOLAU GWEITHDREFN ‘GALW I MEWN’**

(1) Caniateir **5 diwrnod gwaith** i benderfyniad gael ei ‘alw i mewn’ ar ôl ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a hysbysu Aelodau’r Cyngor. Ni fydd gweithredu ar y penderfyniad a wnaed hyd nes i’r cyfnod hwn ddod i ben (gweler pwynt 7 am benderfyniadau brys).

(2) Mae angen **5 o gynghorwyr anweithredol o leiaf i arwyddo** i gychwyn y‘galw i mewn’**.**

(3) Rhaid i’r Pwyllgor Archwilio perthnasol (neu’r Cyngor llawn os yw'n gweithredu fel pwyllgor archwilio) gyfarfod i drafod penderfyniad ‘galw i mewn’ o fewn **5 diwrnod gwaith** o’r amser y gwnaed y ‘galw i mewn’.

(4) Os yw’r Pwyllgor Archwilio (neu’r Cyngor llawn) yn cytuno bod achos i’r penderfyniad gael ei adolygu, bydd argymhellion y Pwyllgor Archwilio’n cael eu **hystyried gan y Cabinet yn eu cyfarfod nesaf**, neu mewn achos penderfyniad dirprwyedig, **gan Aelod Arweiniol o fewn 5 diwrnod gwaith**.

(5) Ni fydd penderfyniad sydd wedi ei ‘alw i mewn’ yn cael ei weithredu hyd nes bod y prosesau y cyfeiriwyd atynt ym mhwyntiau 3 a 4 wedi eu cwblhau (gweler pwynt 7 am benderfyniadau brys).

(6) Nid oes cyfyngiadau ariannol nac eraill (ac eithrio’r rheiny a amlinellir o fewn y weithdrefn) yn cyfyngu’r weithdrefn ‘galw i mewn’.

(7) Gall penderfyniadau brys fynd ymlaen er gwaethaf y 'galw i mewn', os oes gan y penderfynwr gytundeb gyda:

(i) Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol, neu

(ii) os nid oes cadeirydd, neu os na all hwnnw weithredu, Cadeirydd y Cyngor, neu

(iii) os nad oes Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol na Chadeirydd y Cyngor, Is-gadeirydd y Cyngor.

*Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd rhaid gweithredu yn syth ar ôl gwneud penderfyniadau brys, ac felly nid yw’n bosibl ‘galw i mewn’. Rhaid i’r rhain gael eu nodi gan y Cabinet / penderfynwr ar adeg gwneud y penderfyniad, gan egluro a chofnodi’r rhesymau y tu ôl i’r brys yng nghofnod y penderfyniad.*

(8) Gall y graddfeydd amser a ddisgrifir yn rheolau gweithdrefn 1, 3 a 4 gael eu hymestyn mewn amgylchiadau eithriadol gyda chytundeb y penderfynwr a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol.

**RHYBUDD GALW I MEWN**

**At: Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

Rydym ni, yr arwyddwyr isod, yn dymuno 'galw i mewn' y penderfyniad canlynol *(gweler nodyn 1)*.

**Penderfyniad wnaed gan** *(gweler nodyn 2)*: ______________________________

**Dyddiad y gwnaed y penderfyniad:** ____________________________________

______________________________________________________________________

**Teitl Adroddiad:**

**Penderfyniad** *(gweler nodyn 3)*: ________________________________________

**Rheswm dros y 'Galw i Mewn':** ________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

Rydym ni ***(gweler nodyn 4)*** yn gwneud cais, yn unol â rheolau gweithdrefn gymeradwy 'Galw i Mewn' y Cyngor ***(gweler nodyn 5)***, y dylid cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Throsrolwg mwyaf addas o fewn 5 diwrnod gwaith ***(gweler nodyn 6)*** o ddyddiad derbyn y rhybudd hwn.

1. ___________________________(printio)____________________________(llofnod)

2. ___________________________(printio)____________________________(llofnod)

3. ___________________________(printio)____________________________(llofnod)

4. ___________________________(printio)____________________________(llofnod)

5. ___________________________(printio)____________________________(llofnod)

**Dyddiedig:** ______________________________________________________

Nodiadau Cyfarwyddyd

1. Caniateir pum diwrnod gwaith i benderfyniad gael ei ‘alw i mewn’ ar ôl ei gyhoeddi ar
wefan y Cyngor, a hysbysu aelodau’r Cyngor. Gall penderfyniadau brys fynd ymlaen er
gwaetha’r ‘galw i mewn’ os oes gan y penderfynwr gytundeb gyda:

(i) Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol, neu

(ii) os nad oes Cadeirydd, neu os na all hwnnw weithredu, Cadeirydd y Cyngor, Neu

(iii) os nad oes Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol na Chadeirydd y Cyngor, Is-gadeirydd y Cyngor.

2. Rhowch enw’r penderfynwr, os gwelwch yn dda, e.e. Aelod Cabinet neu’r Aelod Arweiniol ar gyfer …………………………..

3. Os ydy’r penderfyniad yn cynnwys mwy nag un rhan, nodwch yn glir pa rannau sy’n cael eu ‘galw i mewn’, os gwelwch yn dda, e.e. rhannau (a), (b), a (d) o’r Penderfyniad.

4. Rhaid i’r arwyddwyr fod yn aelodau anweithredol. Ni all cynghorwyr â diddordeb niweidiol yn y penderfyniad fod yn arwyddwyr Rhybudd ‘Galw i Mewn’.

5. Mae Rheolau ‘Galw i Mewn’ Sir Ddinbych yn ymddangos yng Nghyfansoddiad y Cyngor Rhan *4.5 – Rheolau Gweithdrefn Archwilio*.

6. Gellir ymestyn yr amser mewn amgylchiadau eithriadol os bydd y penderfynwr a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio perthnasol yn cytuno.

**Ar gyfer defnydd Swyddfa yn unig**

Derbyniwyd gan: ______________________ Dyddiad: ____________

Dyddiad y cyhoeddwyd y penderfyniad: ______________________________

Rhybudd a anfonwyd at yr Arweinydd a’r Penderfynwr (dyddiad): ___________

Rhybudd a anfonwyd at y Prif Weithredwr (dyddiad): _____________________

**Y Pwyllgor Archwilio Perthnasol:** ____________________________

Dyddiad: _____________ Amser: ________ Man Cyfarfod: ____________

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad 2/Appendix 2**

**Y rhesymau dros y Galw i Mewn a restrwyd ar y rhybudd ffurfiol a arwyddwyd ac a dderbyniwyd ar 4 Tachwedd 2015**

Cwestiynau:

1. Ydy'r pwyllgor craffu'n hapus bod y penderfyniad wnaed gan y cabinet yn wirioneddol agored i newid/ddylanwad yng ngwir ystyr ymgynghoriad cyhoeddus?
2. Ydy "impact" mudo disgyblion wedi ei ystyried ym mhroffil ieithyddol yr ysgol newydd?
3. Anfonwyd dogfen oddiwrth y sir at yr esgobaeth ar y 23/10/2015 a grëwyd cyn y penderfynaid – fe gyfeiriodd y Cynghorydd Huw Williams ato yn y cyfafod cabinet – ydy hyn felly'n dangos bod y penderfyniad wedi ei wneud ymlaen llaw?
4. Gan fod yr argymhelliad yn pwysleisio fydd yr ysgol newydd yn ysgol categori 2. Mae y mwyafrif o'r disgyblion ysgolion Pentrecelyn a Llanfair Dyffryn Clwyd yn dewis derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Onid yw hyn yn dangos fod yn rhaid i'r ysgol newydd fod yn un Categori 1."
5. Mae'r penderfyniad yn mynd yn erbyn Cynllun Strategol Addysg Gymraeg Sir Ddinbych – cau ysgol categori 1, disodli'r ysgol yn yr ardal gyda ysgol Categori 2 lle mae'r polisi'n dweud yn glir bod y cyngor eisiau symud ysgolion ar hyd y continuum

**The reasons for the Call-in as listed on the formal Notice of Call-in dated and received 4 November 2015**

Questions:

1. Is the scrutiny committee satisfied that the decision made by the cabinet was genuinely open to influence/change in accordance with the spirit of public consultation?
2. Has the impact of pupil migration on the language profile of the new school been fully considered?
3. Document sent from the council to the diocese on 23/10/2015 referred to at the cabinet meeting by Cllr Huw Williams created before the decision made, does this mean the decision was predetermined?
4. Considering the fact that the recommendation states that the new school will be Category 2. Majority of the pupils in Pentrecelyn and Llanfair Dyffryn Clwyd choose to have their education through the medium of Welsh isn't this a case that the new school must be a category 1 school.
5. The decision goes against the Denbighshire Welsh Education Strategic Plan – closing a category 1 school, replacing the school in the area with a category 2 school when the policy clearly states that the council wishes to move schools along the continuum."

**Arwyddwyd yr uchod ar 4 Tachwedd 2015 gan y Cynghorwyr:**
**The above was signed on 4 November 2015 by Councillors:**

Arwel Roberts
Meirick Lloyd Davies
Cefyn H Williams
E Alice Jones
Huw Owen Williams

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag